Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofal Ystwyth Care**

**The Old Convent**
**Ffordd Llanbadarn**
**Aberystwyth**
**SY23 1EY**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Ystwyth Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gofal Ystwyth Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 05 Hydref 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae gan wasanaeth Gofal Ystwyth dîm bach o reolwyr medrus sy'n dangos esiampl o werthoedd y gwasanaeth. Maent yn cydnabod pwysigrwydd cynnal tîm o weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda; sy'n cael eu goruchwylio'n agos, ac sy'n deall egwyddorion yr hyn y mae gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei olygu.

Mae gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth lefel uchel o hyder yn y gwasanaeth ac maent yn teimlo eu bod wedi gwneud y penderfyniad cywir yn ei ddewis. Dywedodd un, "*I think we have got the best. I am so happy to have them".* Mae hyn yn adlewyrchu'r ymatebion cadarnhaol a gafwyd fel rhan o brosesau monitro ansawdd y gwasanaeth, lle ceir lefelau boddhad uchel iawn.

Mae'r gweithwyr yn llawn cymhelliant, yn hyblyg ac yn ymatebol. Maent yn mwynhau eu gwaith ac yn parchu'r bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt, gan nodi eu bod "*like my family".*

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae hyn oherwydd bod y gweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac yn hyderus i godi unrhyw bryderon. Maent o'r farn y byddai'r rheolwyr yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff y bobl eu diogelu.

Mae'r bobl yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo'n ddiogel pan fo'r gweithwyr yn eu cartref. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cymryd gofal da o'r cartref a'u heiddo. Mae'r gweithwyr yn gwybod ei bod yn fraint cael mynd i mewn i gartref unigolyn, ac maent yn gallu esbonio sut maent yn dangos parch at y bobl a'u heiddo.

Mae'r bobl yn cynnal cydberthnasau iach â'r rheini sy'n bwysig iddynt, diolch i'r ffordd y caiff y gofal a'r cymorth eu darparu, gan gydweithio â'r unigolyn a'i deulu. Mae'r gwasanaeth yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion y bobl a'u teulu.

Caiff llesiant y bobl ei wella gan wasanaeth dibynadwy, a gan sgiliau'r gweithwyr. Gall y bobl fod yn hyderus bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gan weithwyr medrus; sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r bobl yn hyderus fod y gweithwyr yn gwybod sut i ofalu amdanynt er mwyn iddynt fod mor iach â phosibl, o ganlyniad i'w cydberthnasau rhagorol â gweithwyr iechyd proffesiynol.

## Gofal a Chymorth

Caiff cofnodion papur eu cadw ac mae'r cynlluniau personol yn fanwl; wedi'u personoli ac yn llawn gwybodaeth. Maent wedi'u hysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys symudedd diogel; anghenion cymdeithasol ac anghenion gofal personol, ac maent hefyd yn ystyried hoff bethau a chas bethau'r unigolyn. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru os bydd angen unrhyw newidiadau.
Mae cynlluniau rhai o'r bobl yn cynnwys hanes personol, sydd o gymorth, a bwriedir llunio hanesion o'r fath ar gyfer mwy o bobl, yn enwedig y rheini sy'n byw gyda dementia.
Mae'r cofnodion dyddiol yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhoddir amser i'r gweithwyr ddarllen y cofnodion ac maent yn ddefnyddiol iddynt.

Lle yr aseswyd bod angen dau aelod o staff ar yr unigolyn, bydd dau aelod o staff yn mynychu bob tro er mwyn sicrhau diogelwch. Nid yw'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn gorfod rhuthro ac mae ganddynt ddigon o amser i eistedd a sgwrsio â'r bobl, gan gydnabod pwysigrwydd hynny.

Mae gan y bobl gydberthnasau rhagorol â'r rheini sy'n rhoi cymorth iddynt. Dywedodd pawb eu bod wedi argymell y gwasanaeth ac y byddant yn parhau i wneud hynny. Caiff y gweithwyr eu disgrifio fel "*friendly",* a'r rheolwr fel "*amazing".*
Siaradodd un perthynas am y ffordd gydweithredol y mae'r gwasanaeth yn gweithio â'r teulu, a pha mor lwcus yr oedd o gael y trefniadau sydd ar waith. Cafodd hyn ei adleisio gan berthynas arall sy'n teimlo ei fod yn bendant wedi gwneud dewis da wrth benderfynu defnyddio Gofal Ystwyth.

Mae'r gweithwyr yn siarad am eu gwaith mewn modd proffesiynol a pharchus. Maent yn deall eu bod mewn sefyllfa freintiedig bod y bobl yn ymddiried ynddynt i weithio yn eu cartrefi. Maent yn gallu cyfleu rhai o'r ffyrdd ymarferol y maent yn dangos eu parch at eiddo'r bobl. Mae un person yn mwynhau "*a joke and some banter”* gyda'r gweithwyr a dywedodd un arall bod y tîm yn gadael iddo wneud yr hyn y gall ei wneud drosto'i hun ac yn *"interested in what I am doing"*.

Mae gan y bobl ddewis o ran sut caiff eu gofal a’u cymorth eu darparu. Mae hyn yn cynnwys dewis rhywedd y gweithiwr yn ogystal â sut a phryd y caiff y gofal a'r cymorth eu cynnig iddynt. Caiff y bobl eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl, a dywedodd un o'r tîm fod cydberthynas un unigolyn â'i deulu wedi gwella ers iddo ddechrau cefnogi'r unigolyn hwnnw.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Mae'r gweithwyr yn gwybod pan fydd risg o niwed i groen unigolyn ac yn gwybod sut i nodi arwyddion o friwiau pwyso. Caiff ymyriadau a ragnodir gan weithwyr iechyd proffesiynol eu rhoi ar waith gan y gweithwyr er mwyn helpu'r person i wella ac er mwyn lleihau'r risg y bydd ei gyflwr yn dirywio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff gweithwyr eu penodi gan ddilyn proses recriwtio gadarn. Mae'r ffeiliau yn drefnus sy'n golygu eu bod yn hawdd eu defnyddio. Maent yn cynnwys geirdaon priodol, tystiolaeth o hunaniaeth a gwiriadau diogelwch. Mae pob aelod o'r tîm yn ymgymryd â chyfnod sefydlu, gan weithio drwy becyn sefydlu manwl; cysgodi gweithwyr mwy profiadol ac ymgymryd ag asesiadau cymhwysedd a gynhelir gan uwch-aelod o'r tîm. Caiff cofnodion eu storio'n ddiogel i sicrhau cyfrinachedd.

Mae'r sesiynau goruchwylio yn gyfredol ac mae'r gweithwyr yn derbyn adborth sy'n gytbwys ac yn amserol ar eu gwaith i'w helpu gyda'u datblygiad proffesiynol. Gallant drafod unrhyw bryderon neu syniadau sydd ganddynt â'r rheolwr ac maent yn hyderus y cânt ymateb amserol a defnyddiol.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n eithriadol o dda. Cynhelir sesiynau hyfforddi gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol yn ogystal â hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r gweithwyr yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau.
Caiff hapwiriadau ac asesiadau o gymhwysedd eu cynnal yn rheolaidd.
Mae'r gweithwyr o'r farn eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r bobl a'u perthnasau o'r farn fod y staff yn fedrus ac yn wybodus. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr wedi cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys diogelu; gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; symud a chodi a chario, a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r gweithwyr hefyd wedi cael hyfforddiant arbenigol, gan gynnwys gofal llygaid; clefyd Parkinson's; dementia a gofal diwedd oes.

Mae'r rheolwyr yn deall gwerth a phwysigrwydd y rheini y maent yn eu cyflogi ac o ganlyniad, mae'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd un wrthym "*Of course I feel valued. My company is like a family",* a dywedodd un arall fod yr hyblygrwydd yn *"amazing".* Mae gan rai o'r gweithwyr ymrwymiadau eraill y mae angen iddynt neilltuo amser iddynt ac mae'r rheolwr yn cydnabod ac yn parchu hyn, ond gan geisio sicrhau ar yr un pryd bod y bobl yn cael eu gofal a'u cymorth ar yr amseroedd y cytunwyd arnynt. Mae'r rheolwyr yn gweithio o swyddfa sy'n lân ac yn hygyrch ac sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae ystafell hyfforddi â digon o gyfarpar y gellir ei defnyddio hefyd gan y rheolwyr i gyfarfod â staff ac eraill yn breifat.

Mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy iawn. Ni chafodd unrhyw ymweliadau eu methu ac mae rotas y gweithwyr yn cynnwys digon o amser teithio i sicrhau bod y bobl yn cael yr amser sydd ei angen arnynt, yn ôl y gofynion amser a aseswyd ar eu cyfer. Mae'r gweithwyr yn cadarnhau nad ydynt yn gorfod rhuthro a, weithiau, bod digon o amser ganddynt i eistedd a sgwrsio â'r bobl. Mae'r rhan fwyaf o ymweliadau yn cael eu cynnal yn brydlon, ac os bydd y gweithwyr yn rhedeg yn hwyr, caiff y bobl eu hysbysu am hyn.

Mae ffocws ar ansawdd a lluniwyd adroddiad Sicrhau Ansawdd manwl a myfyriol sy'n nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, ond hefyd y meysydd yr ystyrir bod angen eu gwella. Mae gan y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, sy'n rhoi ffocws ar lais; dewis a rheolaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/11/2023